# YSGOL GYNRADD GYMRAEG BRYN -Y- MÔR

*Pennaeth/ Headteacher: Mrs Elin Wakeham*

Mewn undod mae nerth /Stronger together


3/12/2021

Annwyl Rieni

Rydym yn prysur hedfan tuag at wyliau'r Nadolig. Mae'n bendant yn dechrau teimlo fel Nadolig yn yr ysgol!

**Dathlu'r Nadolig**

Mae pob dosbarth wedi bod yn dysgu caneuon ac yn paratoi i recordio neges Nadoligaidd i chi. Bydd fideos yn cael eu uwchlwytho ar eich tudalennau dosbarth pan fyddant yn barod. Fe'ch hysbysir pan fyddant ar gael.

Ar Ragfyr 15fed (dydd Mercher) bydd yr ysgol gyfan yn cymryd rhan yn nathliadau'r Nadolig. Gall plant wisgo siwmper neu wisg Nadolig ar y diwrnod. Bydd gwasanaethau Nadolig adrannol a chyfle i ganu carolau Nadolig. Byddwch yn derbyn mwy o fanylion gan staff adran eich plentyn ar eu gweithgareddau penodol.
Ar ddiwedd y dydd, **os bydd y tywydd yn caniatáu**, bydd y plant yn dod allan 10 munud ynghynt (R i Bl 2 - 2.55pm) (Bl. 3 - 6 - 3.10pm) i fuarth yr ysgol i ganu i rieni wrth iddynt gael eu casglu i fynd adref. Nid cyngerdd canu ffurfiol mo hwn ond yn hytach mwy o ganu anffurfiol wrth iddynt adael fel rhan o ddathliad y Nadolig.

**Dosbarth Derbyn**

Dymunwn wellhad buan i Mrs Harris Jenkins o'i llawdriniaeth. Bydd Mr Leyshon yn aros yn y Dderbynfa tan Nadolig.

**Dilch enfawr - Noddwch Bot**

Diolch enfawr i John a Ruth Thomas sydd wedi bod yn gweithio mor anhygoel o galed i gynllunio ar gyfer gwanwyn a'r hafer mwyn harru'r ysgol gyda blodau a phlanhigion. Maent wedi cyrchu'r llawer o bridd a'r potiau wrth baratoi ar gyfer y cynllun 'Noddwch Bot'! Mae wedi bod yn waith anhygoel o galed i'r ddau. Hefyd diolch enfawr i Joseph Croft a'i dîm a helpodd symud yr holl bridd a photiau hefyd! Os hoffech noddi pot - byddwn yn estyn yr amser y gallwch chi anfon naill ai bylbiau neu gyfraniad ariannol fel y gallwn brynu bylbiau - dyddiad 10/12/2021. Peidiwch ag anghofio, byddwch chi'n gallu mynd â'r pot rydych chi wedi'i noddi adref yn ystod wythnosau olaf yn nhymor yr haf.

Diolch yn fawr hefyd i Stacey Yuan Hairdressers am noddi ein coeden Nadolig. Mae'n hyfryd, hyd yn oed yn yr amseroedd anodd hyn, y gall cymuned Bryn y Mor ddod at ei gilydd o hyd.

**Covid**

Fel yr ydych chi i gyd yn ymwybodol, bu llawer o sôn am y straen newydd o covid ar y newyddion. Gofynnaf i ni i gyd fod yn wyliadwrus os oes unrhyw un yn eich cartref yn arddangos symptomau covid. Cofiwch, os oes unrhyw un o'ch aelodwyd yn arddangos symptomau, y dylai pawb fynd am brawf covid a hunan-ynysu nes bod canlyniad y profion yn cael eu dychwelyd.


**Ysgol Gynradd Gymraeg Bryn y Môr, St Albans Road, Brynmill, Swansea, SA2 0BP**
**E-bost/ E-mail: ygg.brynymor@swansea-edunet.gov.uk**
**Gwefan/ Website: www.yggbrynymor.co.uk**
**Trydar/Twitter: @YGGBrynymor1**
**Ffôn/ Tel: 01792 466354**

# YSGOL GYNRADD GYMRAEG BRYN -Y- MÔR

*Pennaeth/ Headteacher: Mrs Elin Wakeham*

Mewn undod mae nerth /Stronger together


**Dyddiadau Pwysig**

Diwrnod olaf y tymor fydd dydd Gwener - 17/12/2021

Bydd yr ysgol yn ailgychwyn ddydd Mercher - 5/12/2022

**HMS**
Dydd Mawrth - 4/1/2022
Dydd Gwener - 18/2/2022

Yn gywir

E. Wakeham

Elin Wakeham


**Ysgol Gynradd Gymraeg Bryn y Môr, St Albans Road, Brynmill, Swansea, SA2 0BP**
**E-bost/ E-mail: ygg.brynymor@swansea-edunet.gov.uk**
**Gwefan/ Website: www.yggbrynymor.co.uk**
**Trydar/Twitter: @YGGBrynymor1**
**Ffôn/ Tel: 01792 466354**